Gweithdrefn Bwlio ac Aflonyddu Myfyrwyr

Ein Hymrwymiad

Mae Caerdydd a'r Fro yn trin bwlio ac aflonyddu o ddifrif ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym goleg lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn cael eu diogelu a'u diogelu rhag niwed. Mae'r gweithdrefnau hyn yn amlinellu sut ydym yn ymdrin ag achosion o fwlio ac aflonyddu ac yn seiliedig ar egwyddorion dulliau adferol.

Gall bwlio ddigwydd yn unrhyw le ac os ydym yn caniatáu iddo ddigwydd, rydym yn rhoi'r neges ei fod yn dderbyniol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn llwyddiannus, mae angen i ni weithio fel cymuned Coleg i sicrhau bod gennym ddiwylliant lle mae bwlio'n annerbyniol. Byddwn yn gweithio mewn dwy ffordd gan gyfuno atal ac ymateb. Gall bwlio ac aflonyddu gael effaith andwyol ar bobl ac i'n myfyrwyr, gall arwain at ddiffyg presenoldeb, gwaith o ansawdd gwael, straen, morâl isel a phroblemau eraill. Gall myfyrwyr hefyd deimlo'n ynysig, yn agored i niwed, wedi'u cywilyddio ac yn ofnus. Bydd yn dinistrio hunan-barch, hyder ac unrhyw ymdeimlad o ddiogelwch. Mae pobl ifanc yn dweud bod bwlio ymhlith eu prif bryderon.[1]

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i bob myfyriwr ar bob rhaglen ddysgu, waeth beth fo modd neu leoliad yr astudiaeth, ac i ymwelwyr.

Adrodd am Fwlio

Mae'n bwysig ym mhob achos bod bwlio'n cael ei adrodd ar unwaith. Os nad ydym yn gwybod amdano, ni allwn weithio i atgyweirio'r niwed a achosir na herio'r ymddygiad.

Myfyrwyr
Os ydych yn cael eich bwlio gallwch ei adrodd mewn nifer o ffyrdd, gallwch:

- Ddweud wrth eich darlithydd neu diwtor cwrs NEU
- Ddweud wrth Gwasanaethau Myfyrwyr NEU
- Fynd i'r Hwb Llesiant

Os ydych yn gweld rhywun yn cael ei fwlio, dylech hefyd roi gwybod amdano yn yr un ffyrdd.

Staff
Os bydd aelod o staff yn dyst neu'n amau bwlio neu aflonyddu dylid cymryd hyn o ddifrif a'i drin yn sensitif – mae hwn yn ddigwyddiad ymddygiad difrifol o fewn y Polisi Rheoli Perthnasoedd. Mae gofyn ichi:

[1] 'Rhydd rhag Bwlio mewn Colegau AB' Hawlfraint y Goron 2009
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygu:	Adolygiad 5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	9/19
Dyddiad Adolygu Nesaf:	9/21

- Ddilyn gweithdrefnau'r Polisi Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr.
- Dilyn llinell ymchwilio gan ddefnyddio'r set o gwestiynau adferol.
- Llenwi'r Ffurflen Adrodd ar Fwlio gyda'r myfyriwr.
- Rhoi gwybod i'r rheolwr ar ddyletswydd ar unwaith.

Gweler Atodiad 1 am Ganllawiau ar Fwlio ac Aflonyddu i Staff.

Beth Fydd yn Digwydd Nesaf?

Os bydd myfyriwr yn adrodd am ddigwyddiad o fwlio ac aflonyddu, caiff hyn ei gymryd o ddifrif a'i drin yn sensitif. Byddwn yn:

- Mynd i'r afael ag ef yn syth.
- Rhoi gwybod i'r myfyriwr ar lafar y byddwn yn ymchwilio i'r honiad.
- Ystyried a yw'r myfyriwr a gyhuddir yn cael ei symud o'r Coleg. Bydd gofyn i fyfyriwr adael os oes tystiolaeth o ddigwyddiad ymddygiad difrifol.
- Os yw'n sefyllfa lle mae ein myfyriwr o dan 18 oed neu'n oedolyn bregus ac mewn perygl o niwed, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r person diogelu dynodedig a byddwn yn delio ag ef yn unol â'r Polisi a Gweithdrefnau Diogelu.
- Os NAD yw'r digwyddiad yn un diogelu, bydd yn cael ei ymchwilio fel rhan o'r Polisi Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr:
    - gan Bennaeth yr Adran os yw'n achos pryder difrifol neu

  O dan y Polisi Rheoli Perthnasoedd, bydd yr uchod yn cyfweld pob parti ac yn cadw cofnodion manwl.
- Rhoi gwybod i Diwtoriaid Cwrs drwy e-bost am ddiweddariadau yn ystod yr ymchwiliad.
- Rhoi gwybod i rieni, gofalwyr neu gyflogwyr lle bo hynny'n briodol.
- Gweithio o dan y Polisi Rheoli Perthnasoedd i atgyweirio'r niwed a achoswyd gan ddefnyddio dulliau adferol.

Myfyrwyr sy'n Bwlio Eraill

Mae bwlio myfyriwr arall yn achos pryder difrifol o dan Bolisi Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr y Coleg. Bydd unrhyw achos o fwlio neu aflonyddu yn cael ei gymryd o ddifrif ac efallai y cewch eich symud o'r Coleg am gyfnod. Byddwch yn:

- Cael eich rhoi ar y cam mwyaf priodol o'r broses ddisgyblu.
- Cael eich cefnogi i ddeall a derbyn eich drygau a gosod targedau ar gyfer newid gan ddefnyddio'r set o gwestiynau Adferol.
- Cael eich monitro ar gyfer ymddygiad sydd wedi newid/gwella.
- Cael eich cyfeirio at asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol.

Os yw'r bwlio neu aflonyddu yn cynnwys elfennau anghyfreithlon e.e. delweddau amhriodol o bobl eraill, bydd gofyn i ni gysylltu â'r Heddlu.

Gweithio i Atal Bwlio

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd gweithio i atal bwlio ac aflonyddu drwy godi ymwybyddiaeth o arwyddion bwlio ac aflonyddu ac o'r effaith y gall gael ar bobl. Byddwn yn:

- Cyhoeddi Polisi Bwlio ac Aflonyddu'n flynyddol.
- Arddangos posteri ar draws y Coleg yn amlinellu ein hagenda 'Parch'.
- Codi ymwybyddiaeth o natur bwlio gyda'n myfyrwyr drwy'r broses Cynefino a thiwtorialau. Bydd y deunydd hwn ar gael drwy Moodle.
- Casglu adborth ar ein polisïau a'n gweithdrefnau bwlio ac aflonyddu drwy weithgareddau llais y dysgwr e.e. Syrfëwr Cwricwlwm 3 gwaith y flwyddyn a grwpiau ffocws unwaith y flwyddyn.
- Codi ymwybyddiaeth o natur bwlio gyda'n staff drwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol.
- Cymryd rhan mewn mentrau cenedlaethol fel Wythnos Gwrth-fwlio a phrosiect NUS Dim Goddefgarwch o Aflonyddu Rhywiol.
- Datblygu cysylltiadau a fydd yn cefnogi addysg gwrth-fwlio gynhwysol – gweler Atodiad 2 ar gyfer sefydliadau.
- Cael Pwyllgor Diogelu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Coleg ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Bydd y grŵp hwn yn trafod pob agwedd ar fwlio ac aflonyddu.
- Monitro achosion o fwlio ac aflonyddu drwy'r Pwyllgor Diogelu. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y rhain i Bwyllgor Cwricwlwm a Materion Myfyrwyr y Bwrdd. Byddwn yn edrych ar:
    - Nifer y pryderon a gofnodwyd
    - Mathau o achosion
    - Y myfyrwyr dan sylw - am dueddiadau
    - Camau a gymerwyd a chanlyniadau
- Ymateb i unrhyw faterion neu dueddiadau sy'n dod o'r monitro uchod. Bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu gosod gyda'r rheolwr priodol.
- Mentrau ymchwil y gellir eu defnyddio i atal bwlio ac aflonyddu a'u gweithredu os yw'n briodol (yn dibynnu ar adnoddau).

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo: 14 Medi 2012	**Rheolwr sy'n Gyfrifol: Deon Taith y Dysgwr**
Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd	**Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Bennaeth**
Dyddiad adolygu: 9/19	**Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy**

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Atodiad 1 – Canllawiau ar Fwlio ac Aflonyddu i Staff

Diffiniadau a Mathau o Fwlio

Gweler y Polisi Bwlio ac Aflonyddu am amlinelliad o ddiffiniadau a mathau o fwlio.

Arwyddion o Fwlio

- Newidiadau sydyn mewn ymddygiad neu ddirmyg myfyrwyr sy'n agos at eraill
- Grwpiau neu lifoedd sydyn o fyfyrwyr i un neu ddau gyfeiriad
- Grwpiau o fyfyrwyr yn gwasgaru'n sydyn pan fydd staff yn agosáu
- Dillad anniben
- Mwy o dystiolaeth o densiynau cynyddol e.e. mae myfyrwyr yn ymddwyn yn ddi-ddweud, yn teimlo cywilydd, yn gweiddi, yn gwneud cyswllt llygad gwael ac yn wyliadwrus o staff
- Mae'r myfyriwr yn cyrraedd y coleg neu'r wers yn gynnar/hwyr yn rheolaidd
- Mae'r myfyriwr yn gwneud esgusodion i beidio â mynd i rai ardaloedd neu i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau
- Mae presenoldeb yn wael Gall ddilyn patrwm penodol drwy gydol yr wythnos.
- Oedi cyn i'r myfyriwr adael y wers, cynnig gwneud pethau i'w cadw ar ôl
- Gall ymddygiad y myfyriwr tuag at y coleg newid.

Gellir bwlio mewn ffyrdd cynnil iawn. Mae rhai pobl ifanc sy'n bwlio yn gymdeithasol fedrus a phoblogaidd, ac efallai nad ydynt yn gwybod bod eu hymddygiad o natur fwlio. Gwaethygir y sefyllfaoedd hyn gan y ffaith bod llawer o bobl ifanc sy'n cael eu bwlio yn credu mai eu bai nhw yw'r bwlio, ac mae ganddynt ofn siarad â phobl amdano.

Seiberfwlio

Mae seiberfwlio yn arbennig o broblemus oherwydd gall gynnwys cyswllt 24/7 – gall fod yn hollbresennol. Mae hefyd yn cael mwy o effaith gan ei fod yn gallu cyrraedd cynulleidfa fawr yn gyflym iawn ac mae'n aros ar-lein am byth. Mae'n aml yn anodd olrhain y rheiny sy'n gysylltiedig. Yn yr adroddiad 'Virtual Violence II' a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Nominet ym mis Chwefror 2012, darganfuwyd bod:

- 350,222 neu 1 mewn 3 o bobl ifanc yn y DU wedi profi seiberfwlio parhaus a bwriadol
- Dywedodd 23% o bobl ifanc eu bod wedi profi seiberfwlio yn para o leiaf blwyddyn
- Dywedodd 40% o bobl ifanc eu bod wedi profi seiberfwlio yn para misoedd neu wythnosau

Canfuwyd mai rhai o effeithiau seiberfwlio oedd bod:

- 20% yn amharod i fynd i'r ysgol
- 19% wedi colli hyder a hunan-barch
- 14% yn byw mewn ofn am eu diogelwch
- 5% yn troi at hunan-niwed
- 3% wedi ceisio lladd eu hunain

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Helpu ni i fynd i'r afael â seiberfwlio

Mae seiberfwlio yn defnyddio'r Rhyngrwyd neu ffonau symudol (yn y Coleg neu y tu allan) e.e. • E-byst amhriodol • Fideos amhriodol • Gwaharddiad • Cam-drin mewn ystafell sgwrsio • Rhannu gwybodaeth amhriodol • Galwadau mud neu fygythiol • Negeseuon testun amhriodol • Negeseuon o natur rywiol	Helpwch ni drwy gasglu'r dystiolaeth cyn gynted â phosibl e.e. sgrin-luniau, cadw neu argraffu negeseuon e-bost, negeseuon testun neu logiau sgwrsio. Os yw'n cynnwys pethau anghyfreithlon e.e. delweddau rhywiol, mae'n rhaid trosglwyddo'r rhain i'r Rheolwr ar Ddyletswydd a fydd yn galw'r Heddlu.

Bwlio a'r Heddlu

Byddai'n rhaid i'r Heddlu gael gwybod am ymddygiad bwlio sy'n cynnwys trosedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymosodiad
- Difrod troseddol
- Lladrad
- Aflonyddu
- Cyfathrebiadau Maleisus
- Trosedd casineb
- Troseddau rhywiol

Byddai'r Rheolwr ar Ddyletswydd yn penderfynu a ddylid galw'r Heddlu.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Atodiad 2 - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Pellach

Anti-Bullying Alliance: www.anti-bullyingalliance.org.uk	Am ddisgrifiad o ffyrdd o alluogi cyfranogiad gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig
CEOP (Canolfan Amddiffyn Plant Rhag Camfanteisio Ar-lein): http://www.ceop.gov.uk.	Cynnal siarter ar-lein i bobl ifanc ac yn gyfrifol am ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Mae cyngor ar gyfer rhieni a gofalwyr a phobl ifanc
BECTA: www.becta.org.uk/safeguarding.php.	Am ragor o wybodaeth ar seiberfwlio
Childnet: http://www.digizen.org/cyberbullying http://www.kidsmart.org.uk.	Am wybodaeth a deunyddiau ar amrywiaeth o agweddau diogelwch ar-lein fel rhwydweithio cymdeithasol, bod yn ddinesydd digidol da, a seiberfwlio
EACH (Gweithred Addysgol yn Herio Homoffobia): www.eachaction.org.uk Ffôn: 0808 1000 143	Cynnig hyfforddiant i awdurdodau lleol i herio bwlio homoffobig. Mae EACH hefyd yn darparu llinell gymorth ran-amser ar gyfer pobl ifanc sy'n profi bwlio homoffobig
Leap: http://www.leaplinx.com/	Cynnig hyfforddiant a gweithdai ar wynebu gwrthdaro ac yn cynnal yr Academi Ieuenctid a Gwrthdaro ar gyfer hyfforddiant ffurfiol sy'n arwain at gymwysterau i staff.
Mencap: www.mencap.org.uk/dontstickit	Mae'r ymgyrch Don't Stick it, Stop It! yn cynnwys sticeri a deunyddiau defnyddiol, megis animeiddiadau llinell a chlipiau fideo, y gellir eu defnyddio at ddibenion hyfforddi/ymwybyddiaeth
Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid www.nya.org.uk	
NSPCC: www.nspcc.org.uk	Mae'n cynnig ystod eang o gyngor a chymorth yn y maes hwn, gan gynnwys beth i'w wneud pan fydd plentyn yn datgelu problem arall fel trais yn y cartref neu esgeulustod.
Stonewall: www.stonewall.org.uk	Gwybodaeth ynghylch mynd i'r afael â bwlio homoffobig
Transforming Conflict: http://www.transformingconflict.org/	I gael gwybodaeth am arferion adferol a hyfforddiant

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.